



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2020 | 2024

www.tancgc.gov.uk



Rhagair

Mae'n bleser gennym allu cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, sy'n ceisio bodloni gofynion y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru, fel y'i hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a chyfleu ei hysbryd, a hynny ar ran yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân. Diben y cynllun hwn yw cyfleu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân i hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws holl swyddogaethau, polisiâu, arferion a gweithdrefnau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a nodi sut y bydd y Gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn elfennau hanfodol o waith y Gwasanaeth. Bydd adeiladu gweithlu sy'n wirioneddol gynrychioliadol yn ein cefnogi i ddeall ein cymunedau yn well fel y gallwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gwbl gynhwysol ac wedi'u targedu, yn y modd mwyaf costeffeithiol, i leihau risg ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed.



Chris Davies QFSM MBA

Y Prif Swyddog Tân

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y cynllun hwn, boed yn ymwneud â'r hyn sydd ynddo neu'r hyn nad yw efallai'n ddigon clir am y gwaith yr ydym yn bwriadu ei wneud.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os ydych am wybod mwy am yr amcanion yn y Cynllun hwn, cysylltwch â:

Mrs Alison Thomas

Ymgynghorydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Pencadlys y Gwasanaeth, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP

Ffôn: 01267 226839 | **E-bost:** al.thomas@mawwfire.gov.uk

Mae'r Cynllun hwn ar gael yn Gymraeg a gall hefyd fod ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech gopi o'r Cynllun hwn mewn iaith neu fformat arall, defnyddiwch y manylion cyswllt a nodir uchod.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol a'n Hadroddiadau Cydraddoldeb Blyneddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu gellir gofyn amdanynt ar ffurf copi caled ym mha bynnag fformat y mae ei angen.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth	4
Ein Gweledigaeth, Ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd	6
Sut yr oeddem wedi datblygu ein hamcanion?	8
Sut y byddwn yn cyflawni ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?	
Amcan 1	8
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Amcan 2	9
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Amcan 3	11
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Sut i Gysylltu â ni	12

75% wedi'i ailgylchu

Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi'i ailgylchu

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n fras y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ymdrin â'n gwaith o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2024. Mae'n crynhoi'r gwaith parhaus tuag at ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd ein holl weithgareddau, ac yn ceisio atgyfnerthu'r cynnydd sylweddol a gyflawnwyd eisoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac adeiladu arno.

Rydym yn cydnabod bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhedeg trwy bob agwedd ar y Gwasanaeth, a'u bod o'r pwys mwyaf i ni fel cyflogwr o ran ein gweithgarwch darparu gwasanaethau sydd â'u golygon tuag allan, yn ogystal â'n cyfrifoldebau sydd â'u golygon tuag i mewn. Nid yw ein hymdrechion i ddod yn fwy amrywiol a chynhwysol yn digwydd ar eu pennau eu hunain, maent yn rhan annatod o'r broses o sicrhau newid diwylliannol ehangach ledled y Gwasanaeth cyfan, a hynny trwy gefnogaeth ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau strategol a'n strategaethau sefydliadol.

Fframwaith Cyfreithiol a Dyletswydd Gyhoeddus

Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n sail i'r strategaeth hon ac sy'n crynhoi cyfres o ddyletswyddau sydd wedi'u bwriadu i amddiffyn gweithwyr a'n defnyddwyr gwasanaethau rhag unrhyw fath o wahaniaethu. Ategir y dyletswyddau hyn ymhellach gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

I grynhoi, rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:


- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt;

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn ymwneud â:

- Dileu neu leihau yr anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r Ddeddf yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o grwpiau gwahanol. Mae'n nodi y gallai cydymffurfio â'r ddyletswydd ymwneud â thrin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill.

Mae cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn rhwymedigaeth gyfreithiol, ond mae hefyd yn gwneud synnwyr busnes da. Credwn, os gallwn ddarparu gwasanaethau i fodloni anghenion amrywiol ein cymunedau, y byddwn yn ystwytho ac yn llywio ein gwasanaethau mewn modd mwy effeithlon. At hynny, mae gweithlu sydd ag amgylchedd gwaith cefnogol yn fwy cynhyrchiol.



Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol mewn chwe Awdurdod Unedol cyfansoddol, sy'n rhan o ardal ein gwasanaeth.

Yr Awdurdodau Unedol yw:



Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 1,300 o aelodau o staff mewn amrywiol categorïau cyflogaeth, h.y. Staff Gweithredol, Staff Rheoli a Staff Cymorth, ac mae'n ymestyn dros ryw 4,500 milltir sgwâr – bron dwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau yn ei ardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

Rôl yr Awdurdod Tân yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn benodol Deddf Argyfyngau Sifil 2004, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006;
- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf yn ogystal â chyfraniad y cynghorau cyfansoddol;
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros y Gwasanaetha ac sy'n ei reoli'n gorfforaethol. Ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

— “ —

Ein Gweledigaeth:

**Bod yn arweinydd byd ym
maes ymateb i argyfwng a
diogelwch cymunedol**

Ein Cenhadaeth:

**Ymgysylltu, Cysylltu, Datblygu
ac Ysbrydoli pobl i ddarparu
Gwasanaeth rhagorol**

Ein Gwerthoedd:

- **Gwneud y peth iawn**
- **Trin pobl â pharch**
- **Perfformio'n rhagorol**

— ” —

Byddwn yn cyflawni ein Gweledigaeth, ein Cenhadaeth a'n Gwerthoedd trwy weithio tuag at ein pedwar Nod Strategol a Hamcanion Gwella a Lles yn 2020/2021



**EIN
POBL**



**EIN
CYMUNEDAU**



**EIN
HAMGYLCHEDD**



**EIN
DYFODOL**

Sut yr oeddem wedi datblygu ein hamcanion?

Er mwyn datblygu'r amcanion cydraddoldeb rydym wedi ymgysylltu â'n preswylwyr a'n gweithlu ac wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, adroddiadau Llywodraeth Cymru, strategaethau mewnol a chanlyniadau ymarferion ymgysylltu â staff mewnol.

Dechreuwyd trwy gydweithio â rhai o'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, a hynny'n rhan o ymarfer ymgynghori amlasiantaeth a roddodd sylw i'r prif feysydd o anghydraddoldeb canfyddedig yn ein hardal.

Ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymarfer hwnnw, rhoddwyd sylw i feysydd lle roeddem yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau yn y sefydliad, a hefyd ystyriwyd ymchwil allanol berthnasol ac arolygon mewnol, cyn mynd ati i gwblhau set o amcanion drafft.

Aethom ati i gynnal ymgynghoriad arall ynghylch yr amcanion drafft hynny, a gwahoddwyd ein gweithlu, rhanddeiliaid allweddol, sefydliadau partner a'r cyhoedd i gyfrannu, a bu i'r canlyniadau ein helpu wrth i ni aiddrafftio a datblygu'r rhai a gynhwysir yn y Cynllun hwn.



Sut y byddwn yn cyflawni ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Adrodd yn Chwarterol

Bydd Penaethiaid Adran yn paratoi adroddiadau chwarterol a fydd yn manylu ar gynnydd o gymharu â'r camau sy'n gysylltiedig â'u maes gwaith, ac a fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu yr Awdurdod i'w hadolygu.

Mae'r adroddiadau hyn yn galluogi Uwch-swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod Tân i graffu ar gynnydd yr holl flaenoriaethau a gwasanaethau a'u monitro.

Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol

Prif ddibenion Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yw cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Gwasanaeth i adrodd ar ei gynnydd wrth gyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol, sy'n cynnwys ei gynnydd wrth gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus a gwmpesir o dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Yn ail, wrth baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd, gall y sefydliad fod yn fodlon ei fod yn seilio ei waith o ddarparu gwasanaethau ar ofynion a disgwyliadau'r cyhoedd, a gall graffu o bryd i'w gilydd ar y modd y mae'r Gwasanaeth yn bodloni ei ofynion.

Amcan 1

Archwilio pob agwedd ar gylchred bywyd gweithwyr, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu denu, penodi, dyrchafu a chadw gweithlu sydd mor amrywiol â phosibl.

Camau Gweithredu

- Sicrhau ein bod yn estyn allan at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn ein gweithlu ehangach, a hynny yn ystod ymgyrchoedd recriwtio gwirfoddolwyr yn y dyfodol.
- Ehangu ein rhaglen o ddigwyddiadau gweithredu cadarnhaol sydd wedi'u hanelu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn ein gweithlu gweithredol.
- Parhau i gefnogi'r cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, yn ogystal â bwrw ymlaen â'i lefelau.
- Meithrin ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r rhaglenni hyfforddi a mentora presennol, ynghyd â'r modd y mae cael cymorth.
- Ymgysylltu â gweithwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn nodi unrhyw rwystrau posibl neu ganfyddedig o ran datblygu yn y Gwasanaeth.
- Wrth gynllunio prosesau sy'n ymwneud â datblygu a dilyniant mewnol, a'u rhoi ar waith, bod yn ymwybodol o anghenion gwahanol ein staff ac, yn benodol, y rheiny sydd ag anghenion dysgu penodol.
- Darparu cyfres ehangach o sesiynau hyfforddi yn ymwneud â sgiliau rheoli a fydd yn galluogi ein staff i reoli timau amrywiol yn well, ynghyd â hyrwyddo diwylliant cynhwysol.
- Gweithio tuag at leihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.
- Ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gweithredol ac annog adborth mewn perthynas ag unrhyw welliannau y gellir eu gwneud i'n darpariaethau cyfredol o ran iwnifform a chyfarpar.
- Parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ynghylch cyflwyno ac adolygu polisiau a gweithdrefnau, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser.
- Parhau i adolygu'r systemau cymorth sydd gennym ar waith ar gyfer ein staff, a'u diwygio, yn ôl yr angen, i ddiwallu eu hanghenion sy'n newid yn barhaus.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd o rôl y diffoddwr tân fel un sy'n agored i bob sector o gymdeithas.

Mesur Llwyddiant

1. Gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol, lle mae'r aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gallant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.
2. Trawsdoriadau eang ac amrywiol o'n cymunedau yn ein hystyried yn gyflogwr o ddewis.

Amcan 2

Dylunio a darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb yn ein cymunedau.

Camau Gweithredu

- Blaenoriaethu ein gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned a pharhau i gasglu gwybodaeth am y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, a hynny er mwyn ein galluogi i adolygu a diwygio ein strategaeth dargedu, yn ôl yr angen.
- Parhau i esblygu'r model cyflenwi Diogel ac Iach er mwyn sicrhau ein bod yn targedu negeseuon i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodir.
- Darparu dehonglwyr a chyfieithwyr, fel y bo'n briodol, fel y gallwn gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion a'n cymunedau yn unol â'u hanghenion.
- Sicrhau bod ein deunyddiau ymgysylltu ag ysgolion yn hygyrch i bob plentyn, a bod ein rhaglen ysgolion yn gynhwysol ar gyfer pob ysgol yn ein hardal.
- Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir yn yr ysgol ar gael yn y fformat priodol i'w defnyddio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a bod ein staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i allu cyflwyno yn y fformatau hyn.
- Adolygu'r modd yr ydym yn cefnogi busnesau lleol i leihau'r risg o dân ac i gynnal eu cydymffurfedd â deddfwriaeth diogelwch tân, a hynny er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarparwn yn briodol ac yn hygyrch.
- Sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i ddeall ac ymateb i anghenion pawb yn ein cymunedau.

Mesur Llwyddiant

Gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb yn ein cymunedau a gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i'w darparu.



Amcan 3

Sicrhau bod ein gwybodaeth a'n gwasanaethau yn gwbl hygyrch, a hynny i'n staff a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Camau Gweithredu

- Sicrhau bod sianeli cyfathrebu digidol y Gwasanaeth yn gwbl hygyrch i bob grŵp, gan gynnwys y rheiny ag anableddau a'r rheiny â Saesneg fel ail iaith.
- Trwy ein defnydd o iaith a thrwy ddarparu gwybodaeth allweddol mewn fformatau amgen, gan gynnwys fformat Hawdd ei Deall, sicrhau bod ein cymunedau i gyd yn deall pa wasanaethau y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eu darparu yn ogystal â sut i gael mynediad atynt.
- Adolygu ein rhestr gyfredol o randdeiliaid er mwyn sicrhau lefel briodol o gynrychiolaeth ar gyfer grwpiau o bob un o'r nodweddion gwarchoddedig.
- Archwilio'r opsiynau sydd ar gael i'r rheiny sydd â nam ar eu clyw neu sydd â phroblemau o ran eu lleferydd i roi gwybod am achosion brys a digwyddiadau sy'n ymwneud â than yn ogystal â gofyn am ymyraethau Diogelwch Cymunedol.
- Bod yn ymwybodol o'r pocedi o allgáu digidol yn ein hardal a gofalu ein bod yn cyrraedd yr ardaloedd hynny o ran gwaith ataliol, gan sicrhau bod ein negeseuon ar gael mewn fformatau a fydd yn diwallu anghenion yr unigolion hynny.
- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o hygyrchedd ein Hystad i'n staff a'r cyhoedd, fel ei gilydd.

Mesur Llwyddiant

Pawb yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at ein hadeiladau, ein gwybodaeth a'n gwasanaethau, ac yn gwybod sut i wneud hynny.



Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2020 | 2024

Rhagor o wybodaeth

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan, www.tancgc.gov.uk, ein ffonio ar **0370 60 60 699** neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon neges e-bost atom i mail@mawwfire.gov.uk

Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys fersiwn sain,

cysylltwch â ni ar: **0370 60 60 699** neu trwy neges e-bost: mail@mawwfire.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb i'r ddau mewn modd cyfartal ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

We welcome calls in Welsh and English.

HOFFI DILYN RHANNU



LIKE FOLLOW SHARE

Ein Negeseuon
Diogelwch

Our Safety
Messages



Adnoddau Dynol
Human Resources